# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref gofal Cilymaenllwyd**

**Cartref gofal Cilymaenllwyd**
**Pwll**
**Llanelli**
**SA15 4RB**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

29/11/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref gofal Cilymaenllwyd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br><br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Barleybind Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 49 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | [Manual Insert] 15th March 2021 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghilymaenllwyd yn hapus ac mae awyrgylch cadarnhaol yno sy'n gwneud i bobl deimlo'n gyfforddus. Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch. Mae'r ddogfennaeth gofal yn fanwl ac yn gyfredol a chaiff adolygiadau eu cynnal bob tri mis o leiaf.

Mae'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y tîm rheoli a chaiff dull cyfathrebu agored ei annog. Rhoddir cyfleoedd i'r staff a'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth rannu syniadau a chyfrannu at holiaduron a chyfarfodydd rheolaidd. Mae prosesau sicrhau ansawdd ar waith ac mae'r Unigolyn Cyfrifol a'r tîm yn ymdrechu i wella darpariaeth y gwasanaeth. Nid yw'r Unigolyn Cyfrifol wedi gallu ymweld â'r gwasanaeth yn bersonol yn ystod y pandemig, ond mae'n gobeithio y gall gynnal ymweliadau chwarterol rheolaidd unwaith eto o fis Ionawr 2023 ymlaen.

## Llesiant

Gwelsom y staff yn rhyngweithio â'r bobl mewn amgylchedd hapus a chyfeillgar. Mae gan y staff gydberthnasau da â'r rheini y maent yn gofalu amdanynt ac mae'r bobl yn mwynhau'r tynnu coes hamddenol sydd rhyngddynt. Mae'r bobl yn hapus a bodlon ac yn amlwg yn mwynhau cwmni ei gilydd. Dywedodd un person wrthym *"We always have fun here, it's lovely here".*

Caiff y bobl eu gwerthfawrogi fel unigolion a chaiff eu llesiant ei hybu. Caiff gwybodaeth bersonol ei chasglu gan y bobl a'u cynrychiolwyr pan gânt eu derbyn i'r cartref, gan gynnwys eu hoff bethau a'u cas bethau a dewisiadau unigol. Bydd y staff hefyd yn awyddus i glywed am ddymuniadau'r bobl am yr hyn yr hoffent ei gyflawni drwy holiaduron, cyfarfodydd gyda'r preswylwyr ac adolygiadau o gynlluniau gofal unigol. Roedd canwr yn y gwasanaeth ar ddiwrnod yr arolygiad a rhyngweithiodd â'r bobl yn unigol ac mewn grwpiau. Dywedodd aelod o deulu wrthym, "*Music plays a big part, mum is unable to do crafts".*

Anogir y bobl i wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt. Gwelsom un person yn mynd gyda'r tasgmon i brynu eitemau roedd eu hangen arno i gwblhau ei swydd a chawsom wybod bod y person yn mwynhau treulio amser gyda'r tasgmon yn rheolaidd i fynd ar negeseuon.

Darperir dewis o brydau bwyd ac mae staff y gegin yn ymwybodol o ddewisiadau unigolion ac yn gallu darparu ar gyfer hyn. Mae'r cogydd yn fodlon paratoi rhywbeth nad yw ar y fwydlen ar gais unigolyn. Caiff cacennau eu pobi i ddathlu achlysuron arbennig, gan gynnwys pen-blwydd.

Mae dewis o ardaloedd cymunedol lle y gall y bobl ymlacio a threulio amser, ac mae ardal addas yn yr awyr agored, gyda golygfeydd o'r Gŵyr, pan fydd hi'n gynhesach. Mae rhai pobl yn dewis treulio amser yn eu hystafelloedd. Dywedodd perthynas wrthym, "*Sometimes I'm reluctant to leave when I visit, it's so friendly and cosy there, I would happily have a room there for a couple of weeks it's so nice!"*

Caiff diogelwch ei hybu ac mae'r staff gofal yn ymwybodol o'r polisi a'r gweithdrefnau diogelu i'w dilyn os bydd ganddynt unrhyw bryderon. Maent yn hyderus y byddai'r tîm rheoli yn cymryd camau priodol. Mae'r cartref yn ddiogel ac mae'n ofynnol i ymwelwyr ganu'r gloch i fynd i mewn i'r cartref. Caiff llyfr mewngofnodi ei ddefnyddio. Gwelsom y staff gofal yn rhoi sicrwydd i'r bobl ac yn helpu'r rheini oedd â phroblemau symudedd a phroblemau synhwyraidd i symud o amgylch y cartref yn ddiogel.

## Gofal a Chymorth

Caiff y bobl ofal gan staff sy'n frwdfrydig ac yn uchel eu cymhelliant ac sy'n eu hadnabod yn dda. Caiff asesiadau eu cynnal cyn i'r bobl symud i'r gwasanaeth er mwyn sicrhau y gellir diwallu eu hanghenion. Mae cynlluniau gofal cywir a chyfredol yn hysbysu'r staff gofal am anghenion gofal a chymorth unigol ac mae'r asesiadau risg yn hybu diogelwch a llesiant y bobl.

Caiff y cynlluniau gofal unigol eu hadolygu'n rheolaidd gyda'r bobl ac er na chaiff y cynrychiolwyr eu gwahodd yn ffurfiol i'r cyfarfodydd adolygu, dywedodd y perthnasau y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael eu diweddaru'n syth o unrhyw newidiadau i'r anghenion gofal bob amser a bod y dull cyfathrebu yn dda. Dywedodd un perthynas wrthym, *"I'm always contacted if a GP is called or anything like that".* Dywedodd perthynas arall, "*They (staff) are always happy to give an update"*

Cynhelir cyfarfodydd unwaith y mis ar gyfer y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth ac mae'r cofnodion yn dangos bod y bobl yn barod i fynegi eu barn am bob agwedd ar y gwasanaeth. Caiff cyfarfodydd eu cynnal gyda'r perthnasau fel arfer hefyd ond ni chawsant eu cynnal yn ystod y pandemig. Bwriedir ailddechrau eu cynnal ym mis Ionawr 2023.

Defnyddir dull amlddisgyblaethol ac mae cofnodion yn dangos bod gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, megis Nyrsys Ardal, Ffisiotherapyddion, Therapyddion Galwedigaethol a Dietegydd yn rhan o'r broses rheoli gofal. Yn ystod yr arolygiad, roedd Optegydd yn ymweld â'r gwasanaeth i gynnal profion llygaid. Caiff cwympiadau eu cofnodi ac mae archwiliadau yn cael eu cynnal bob mis er mwyn helpu i nodi patrymau a phryderon. Caiff atgyfeiriadau eu gwneud at y tîm Cwympiadau ac Eiddilwch pan fo angen.

Dywedodd y bobl a'u cynrychiolwyr wrthym eu bod yn hapus gyda'r gofal a gaiff ei roi. Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol; *"I have absolutely no concerns", "This place was head and shoulders above the rest when we were looking and I can't imagine any other place being any better".* Dywedodd un person, *"It's outstanding, I tell my family I arrived in heaven when I came here"*

## Yr Amgylchedd

Mae Cilymaenllwyd yn faenordy mawr sydd wedi'i leoli ar ei dir ei hun â golygfeydd o'r foryd. Mae mewn cyflwr da a chaiff unrhyw waith atgyweirio ei gynnal gan y tasgmon neu grefftwr pan fo angen. Mae'r tystysgrifau Archwiliadau a Gwasanaeth yn dangos y caiff gwiriadau iechyd a diogelwch gofynnol eu cynnal yn unol â deddfwriaeth ac mae'r adeilad, y cyfarpar a'r ardal awyr agored mewn cyflwr da. Ymdrinnir ag unrhyw faterion sy'n codi yn brydlon.  Mae'r bobl yn mwynhau cyfleoedd i eistedd yn y lolfa i wylio'r bywyd gwyllt drwy'r ffenestri mawr sy'n edrych tuag at y gerddi.

Mae tu mewn y cartref yn gynnes, yn lân ac yn gartrefol. Mae rhai ardaloedd wedi cael eu hailaddurno'n ddiweddar, ac mae'r gwaith yn mynd rhagddo. Cafodd y lluniau a'r arwyddion eu tynnu oddi ar y waliau yn ystod yr achosion o COVID-19 o dan gyfarwyddyd y cynghorydd Atal a Rheoli Heintiau, ac er bod y rhan fwyaf wedi cael eu gosod yn ôl ar y waliau bellach mae'r gwaith hwn hefyd yn mynd rhagddo. Mae'r ystafelloedd gwely wedi'u personoli a chaiff y bobl eu hannog i osod eu heitemau eu hunain o'u hamgylch, fel lluniau ac addurniadau. Mae'r gegin wedi ennill sgôr o bump gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, sef y sgôr uchaf posibl. Mae'n lân ac mae digon o gyfarpar ynddi.

Mae'r llawr mewn un ardal o'r cartref wedi cael ei newid yn ddiweddar o ddyluniad â phatrwm i un plaen i'w wneud yn fwy diogel. Mae'r arwyddion o amgylch y cartref yn helpu'r rheini sy'n ei chael hi'n anodd cofio pethau.

Mae'r cartref ac ardal yr ardd yn ddiogel ac mae'n rhaid i ymwelwyr ganu cloch y drws ffrynt er mwyn dod i mewn. Gofynnir i bob ymwelydd ddefnyddio'r llyfr mewngofnodi. Defnyddir bysellbad ar gyfer defnyddio'r grisiau er diogelwch.

Gan fod cyfyngiadau COVID-19 bellach wedi cael eu llacio nid oes angen i'r ymwelwyr ddangos canlyniad prawf negatif. Fodd bynnag, cânt eu hannog i beidio ag ymweld â'r cartref pe bai ganddynt unrhyw symptomau.

Mae gan y bobl gynlluniau personol gadael mewn argyfwng, sy'n benodol i'w hanghenion cymorth unigol. Er enghraifft, symudedd ac ymwybyddiaeth o ddiogelwch.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r Unigolyn Cyfrifol mewn cysylltiad rheolaidd â'r cartref ac yn darparu cefnogaeth dda i'r rheolwr. Er bod yr Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda ac mewn cysylltiad rheolaidd â'r rheolwr, ni chafodd yr ymweliadau chwarterol rheoliadol eu cynnal yn ystod y Pandemig. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn bwriadu ymweld â'r cartref ym mis Ionawr 2023 a rhoddodd sicrwydd i ni y byddai'r ymweliadau hyn yn cael eu cynnal bob tri mis fel mater o drefn. Caiff hyn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf.
Roedd adroddiad adolygu Ansawdd Gofal manwl diweddar yn dangos bod systemau ar waith i fonitro, adolygu a gwella'r gofal a'r cymorth a ddarperir a gwelsom holiaduron a gwblhawyd gan y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'r bobl sy'n gweithio yno.

Mae'r rheolwr yn cael ei gefnogi'n dda gan yr Unigolyn Cyfrifol a dywedodd sawl aelod o staff wrthym fod posibl cysylltu â'r Unigolyn Cyfrifol bob amser dros y ffôn neu ar e-bost. Dywedodd un aelod o staff wrthym, *"I can raise anything and I would get a response".* Mae'r bobl yn gwybod sut i wneud cwyn pe bai angen iddynt wneud hynny ac maent yn hyderus y byddai'r tîm rheoli yn gwrando arnynt pe baent yn gwneud cwyn. Mae'r rheolwr yn bresennol iawn yn y cartref ac yn adnabod y staff a'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth yn dda. Dywedodd un aelod o staff, "*They (the Manager) will help us if we are short staffed – will help with meals and things".*

Mae'r staff gofal yn hapus ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol. Mae gan y staff gofal y gwnaethom siarad â nhw barch mawr at y rheolwr. Dywedodd un person wrthym, *"X (manager) is a lovely manager, she is very good. We are like one family here."* Disgrifiodd aelod arall o staff y rheolwr fel person, *"Helpful, supportive and always smiling!".* Dywedodd person sy'n defnyddio'r gwasanaeth wrthym, *"They're happy and kind – the people (staff) we deal with".*

Mae system recriwtio gadarn ar waith a chaiff gwiriadau llym eu cynnal gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn i'r aelodau o staff ddechrau gweithio a chesglir dau eirda ganddynt. Mae'r cofnodion yn dangos bod y staff wedi cael yr Arfarniadau blynyddol, sesiynau goruchwylio chwarterol unigol a'r hyfforddiant diweddaraf.

.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**Dyddiad Cyhoeddi** 18/01/2023